**Meini Prawf ar gyfer Cynnwys Ysgolion yn y Bartneriaeth**

Trwy ymgysylltu â rhaglen ddiwygio seiliedig ar dystiolaeth a thrwy gyfrwng Cenhadaeth ei Chenedl, mae Cymru yn awyddus i wella deilliannau a phrofiadau addysgol pob dysgwr. Rhan allweddol o wireddu'r weledigaeth hon yw math newydd o addysg athrawon, wedi'i seilio ar ddaliadau dulliau cydweithredol o ddatblygu darpar athrawon (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae angen i ysgolion a phrifysgolion weithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd dysgu systematig a strwythuredig mewn amgylchedd ysgol (LlC, 2018, t. 10) a sicrhau bod ystod eang o wybodaeth broffesiynol ar gael, gan feithrin diwylliant Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ar ffurf amgylchedd a rennir, wedi'i wreiddio mewn diwylliant ysgolheigaidd (LlC, 2018).

Ffurfir Partneriaeth y Brifysgol Agored trwy gynrychiolaeth o'r Brifysgol Agored, Consortia Rhanbarthol ac Ysgolion Partner ledled Cymru. Mae Ysgolion Partner Arweiniol yn cynrychioli'r Bartneriaeth trwy ein Pwyllgor Partneriaeth, gan osod cyfeiriad strategol a blaenoriaethau gweithredol y Bartneriaeth. Mae ein hysgolion partner eraill yn cefnogi'r rhaglen trwy fod yn safle dysgu ar gyfer Darpar athrawon y Brifysgol Agored, naill ai fel Ysgol Gyswllt (gan gefnogi myfyrwyr rhan-amser) neu fel Ysgol-gyflogi (gan gefnogi myfyrwyr cyflogedig).

## Dod yn Ysgol Bartneriaeth

Perthynas gref rhwng y Brifysgol Agored, Consortia Rhanbarthol ac Ysgolion Partner Arweiniol yw elfen bwysicaf y rhaglen. Bydd darpar athrawon yn uniaethu'n gryf â'u lleoliadau profiad ysgol oherwydd y rheini fydd eu safleoedd dysgu ar gyfer gwybodaeth arbrofol a gwybodaeth seiliedig ar ymarfer. Mae Ysgolion Partner Arweiniol o'r radd flaenaf yn hanfodol i lwyddiant hyn.

Ymhellach, mae Partneriaeth y Brifysgol Agored yn cydnabod bod ysgolion ar draws Cymru, ar y cychwyn, yn debygol o'u cael eu hunain ar wahanol gyfnodau yn eu siwrnai tuag at y weledigaeth o gael rhaglen AGA ddiwygiedig fel y nodir uchod. Bydd Ysgolion Partner Arweiniol â rhan hollbwysig yn y dasg o gefnogi twf a datblygiad dull ysgol gyfan o ymdrin ag AGA o fewn eu clystyrau o Ysgolion Cyswllt ac Ysgolion-gyflogwyr. Cred Partneriaeth y Brifysgol Agored fod hyn yn cynnig cyfle dysgu proffesiynol gwerthfawr i'r holl staff ysgol dan sylw trwy gyfrwng cyd-ddeialog broffesiynol a rhannu arferion gorau.

Mae'n bwysig i ysgolion sy'n gwneud cais i ddod yn ysgolion partner fyfyrio ar eu parodrwydd a'u capasiti i gymryd rhan yn y rhaglen a bodloni'r gofynion achredu o safbwynt rolau a chyfrifoldebau ysgol bartner, a dylent drafod hyn gydag Arweinydd AGA eu consortia rhanbarthol. Yna, dylai ysgolion ystyried pa statws y maent yn dymuno ymgeisio amdano a pha un sy'n gweddu orau i gryfderau ac anghenion dysgu eu hysgol:

**Ysgolion Partner Arweiniol** – Aelodau Pwyllgor y Bartneriaeth â chyfrifoldebau strategol a chyfrifoldebau penderfynu hollbwysig. Maent yn arwain ysgolion cyswllt ac ysgolion-gyflogwyr o fewn eu clwstwr ac yn chwarae rhan greiddiol ym mhob agwedd ar y rhaglen (i gael rhestr lawn o'r rolau a'r cyfrifoldebau, gweler Atodiad A).

**Ysgolion Cyswllt –** Mae ysgolion cyswllt yn cymryd yr awenau o ran galluogi myfyrwyr i gysylltu eu hastudiaethau â chyd-destun proffesiynol cefnogol trwy ddarparu cyfleoedd mewn ysgolion i darpar athrawon ddatblygu eu hymarfer. Mae ysgolion cyswllt yn cefnogi datblygiad myfyrwyr sy'n rhan o'r rhaglen TAR Ran-amser, gan gynnig lleoliadau o hyd at 120 diwrnod y flwyddyn (i gael rhestr lawn o'r rolau a'r cyfrifoldebau, gweler Atodiad B).

**Ysgolion-gyflogwyr** – Ysgolion-gyflogwyr yw ysgolion sy'n dymuno cefnogi datblygiad myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs TAR Cyflogedig. Dylai ysgolion-gyflogwyr ymrwymo i gyflogi darpar athrawon ar o leiaf bwynt 1 y raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso yn ystod y ddwy flynedd. Gall ysgolion uwchradd gael cyfraniad cyflog gan Lywodraeth Cymru. Bydd darpar athrawon yn cael eu cyflogi'n llawn-amser (i gael rhestr lawn o'r rolau a'r cyfrifoldebau, gweler Atodiad C). **Yn seiliedig ar Bwynt 1 y raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso.*

Mae modd i ysgol gael mwy nag un statws. Mae enghreifftiau'n cynnwys: Ysgol Bartner Arweiniol sy'n dewis cefnogi myfyrwyr rhan-amser; ysgol sy'n cefnogi myfyrwyr rhan-amser ac yn cyflogi myfyrwyr cyflogedig, neu ysgol bartner arweiniol sy'n cyflogi myfyrwyr cyflogedig.

**Proses Adolygu Statws Partneriaeth**

Mae statws partneriaeth ysgol yn cael ei adolygu bob dwy flynedd (yn unol â hyd y rhaglen). Bydd y meini prawf ar gyfer dewis ysgolion hefyd yn cael eu hadolygu gan y Bartneriaeth (a'u harwain gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Recriwtio, Derbyn a Chadw (RDCh)) bob dwy flynedd. Dylai ysgolion hysbysu'r Bartneriaeth am unrhyw newidiadau i'w gallu i fodloni eu meini prawf statws cyn gynted â phosibl. Gall staff partneriaeth hefyd godi unrhyw newidiadau i allu ysgol i fodloni'r meini prawf ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw gyda Chyfarwyddwr y TAR. Gall enghreifftiau o newidiadau i amgylchiadau ysgol a allai effeithio ar eu gallu i fodloni'r meini prawf gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Newidiadau sylweddol i staffio neu arweinyddiaeth
- Gweithredu diwydiannol
- Cyngor Cynghorydd Her
- Newidiadau sylweddol i gategoreiddio ysgolion
- Adborth gan Estyn
- Materion a godwyd trwy'r fframweithiau Cymorth i Fyfyrwyr neu Datrys Materion

Gall unrhyw aelod o'r Bartneriaeth godi newidiadau i allu ysgol i fodloni'r meini prawf ar gyfer eu Statws Partneriaeth:

- Gan yr ysgol (e.e. Pennaeth neu Arweinydd AGA)
- Arweinwyr AGA y Consortia Rhanbarthol
- Tiwtoriaid Ymarfer
- Mentoriaid / Cydlynwyr Ysgol
- Darpar Athrawon
- Tiwtoriaid Cwricwlwm

Os hysbysir y Bartneriaeth am newidiadau i allu ysgol i fodloni'r meini prawf, bydd hyn yn sbarduno Adolygiad Statws Partneriaeth trwy'r Fframwaith Datrys Materion. Gall canlyniadau adolygiad o'r fath gynnwys:

- Newid i statws Partneriaeth yr ysgol (e.e. Ysgol Partner Arweiniol i leihau eu hymrwymiadau strategol i Lefel Ysgol Gysylltiol).
- Darparu cefnogaeth bellach i'r ysgol a / neu'r myfyriwr i fynd i'r afael â meysydd y mae newidiadau yn effeithio arnynt.
- Dim lleoli pellach i fyfyrwyr yn yr ysgol yn y tymor byr neu'r tymor hir.
- Dad-ddewis ysgol o'r Bartneriaeth.

**Dad-Ddewis Ysgolion o'r Bartneriaeth**

Gwahoddir ysgolion Partner Arweiniol i chwarae rhan lawn wrth ddylunio a chyflwyno'r rhaglen yn strategol. Os na fydd yr ysgol Partner Arweiniol yn ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor Partneriaeth (ee absenoldeb parhaus mewn cyfarfodydd pwyllgor ac is-bwyllgor; nid yw'n cefnogi lleoliadau darpar athrawon trwy gydol eu cyfnod statws), dylai Cyfarfod Adolygu Partneriaeth cael ei gynnal.

Mae dad-ddewis ysgol o'r Bartneriaeth yn benderfyniad sylweddol a difrifol. Byddai'r Bartneriaeth yn ymdrechu, trwy ddefnyddio'r Fframwaith Datrys Materion, i weithio'n agos gyda'r ysgol i ddarparu cefnogaeth a lliniaru lle bo hynny'n bosibl i ddatrys materion yn y lle cyntaf, yn seiliedig ar egwyddorion aeddfedrwydd, gonestrwydd a thryloywder. Dylai'r penderfyniad i ddad-ddewis ysgol gael ei wneud mewn ymgynghoriad agos â phennaeth yr ysgol a lle bo hynny'n bosibl, dylid dod i gytundeb ar y cyd.

Os bydd newidiadau i amgylchiadau unrhyw ysgol yn golygu bod lliniaru yn gyfyngedig o ran effaith, neu os yw'r ysgol yn derbyn hysbysiad gan Estyn eu bod yn anfoddhaol a bod angen eu gwella ar frys, rhaid i'r Bartneriaeth adolygu lleoliad unrhyw darpar athrawon rhan-amser neu gyflogedig mewn yr ysgol.

Lle bo modd, gellir gosod myfyrwyr rhan amser mewn ysgol arall. Os bydd ysgol yn cefnogi myfyriwr cyflogedig, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ansawdd profiad yr darpar athro yn yr ysgol fel safle dysgu yn seiliedig ar ymarfer. Dylai darpar athrawon bob amser dderbyn eu hawl leiaf. Bydd angen i aelodau'r Panel Datrys Materion benderfynu a yw:

- Yn bosib i liniaru'n gryf i gynorthwyo'r myfyriwr cyflogedig i aros yn yr ysgol. Gall enghreifftiau o liniaru gynnwys:
  - Ymweliadau tiwtor Ymarfer ychwanegol â'r ysgol (i gefnogi'r darpar athro a/neu'r mentor)
  - Tiwtorialau ar-lein ychwanegol gyda'r Tiwtor Cwricwlwm
  - Cefnogaeth ychwanegol gan Ysgol Partner Arweiniol (e.e. dysgu o leiaf 50% mewn Ysgol Partner Arweiniol)
- Dylid cynnig lleoliad arall i'r myfyriwr cyflogedig mewn ysgol arall. Er y gwneir pob ymdrech i gynorthwyo'r myfyriwr i ddod o hyd i leoliad Cyflogedig arall, efallai y bydd angen i'r myfyriwr drosglwyddo i'r llwybr rhan amser er mwyn cwblhau'r cymhwyster TAR mewn lleoliad arall.

## Meini Prawf ar gyfer Cynnwys Ysgolion

**Ysgolion Partner Arweiniol**

Dylai Ysgolion Partner Arweiniol fod yn ysgolion effeithiol a gydnabyddir o fewn eu rhanbarth am eu darpariaeth ansawdd uchel (LlC, 2018). Wrth bennu darpariaeth ansawdd uchel, bydd Partneriaeth y Brifysgol Agored yn rhoi sylw dyledus i adroddiadau Estyn, y modd y caiff ysgolion eu categoreiddio a gwybodaeth y Consortia Rhanbarthol (e.e. trwy ymgynghori â chynghorwr her penodedig yr ysgol). Caiff Ysgolion Partner Arweiniol eu dewis a'u penodi gan Bwyllgor y Bartneriaeth fel rhan o broses benderfynu gydweithredol, lle rhoddir sylw dyledus i ddethol amrediad amrywiol o ysgolion Cynradd ac Uwchradd, cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, a chanddynt amrywiaeth o enwadau, cefndiroedd a lleoliadau.

Er mwyn ymuno â Phartneriaeth y Brifysgol Agored fel Ysgol Bartner Arweiniol, bydd angen i ysgolion ddangos eu bod yn gallu bodloni'r meini prawf canlynol:

| |
|---|
| MAEN PRAWF 1<br>Mae gan eich ysgol y capasiti a'r gallu i ymgysylltu â Phwyllgor y Bartneriaeth, i ddatblygu'r rhaglen, ac i recriwtio myfyrwyr a rolau a chyfrifoldebau eraill (fel y nodir yn Atodiad A), yn cynnwys cefnogi darpar athrawon o ysgolion cyswllt ac ysgolion-gyflogwyr i fynd i'r afael ag ail brofiad ysgol. |
| MAEN PRAWF 2<br>Mae eich ysgol yn deall agenda Diwygio Addysg Cymru, mae wedi dechrau darparu ar gyfer Cwricwlwm Cymru 2022 ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu continwwm iaith ar gyfer Cymru, gan weithio tuag at 'Cymraeg 2050'. |
| MAEN PRAWF 3<br>Mae eich ysgol wedi cael llwyddiant blaenorol o ran datblygu'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, ac asesu a hyfforddi ar lefel ysgol ac ymarferydd. Ceir strategaeth glir ar gyfer pennu, dewis a chefnogi cydlynwyr ysgolion a mentoriaid, yn ogystal â chapasiti sicr i fentora a goruchwylio fel y gellir rhoi adborth adeiladol i darpar athrawon , a'u hasesu. |
| MAEN PRAWF 4<br>Mae eich ysgol yn danbaid dros rannu arbenigedd AGA drwy'r holl ysgol, yn cynnwys dull ysgol gyfan o gefnogi darpar athrawon . Bydd eich ysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a Phartneriaeth ehangach y Brifysgol Agored. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi anghenion neilltuol darpar athrawon sy'n astudio ar gyfer TAR trwy ddysgu o bell ac ymarfer seiliedig ar waith, ynghyd â mynd i'r afael â'r deunyddiau ac addysgu'r rhaglen. |

| |
|---|
| MAEN PRAWF 5<br>Mae eich ysgol wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad dysgu a chanddo ddysg broffesiynol seiliedig ar ymchwil ar bob lefel, yn yr ysgol a hefyd trwy gyfrwng partneriaethau / rhwydweithiau perthnasol.<br><br>*Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2016)* [1]*. "What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers"* |
| MAEN PRAWF 6:<br>Mae gan eich ysgol y capasiti a'r gallu i gynorthwyo ymarferwyr proffesiynol ar ffurf tiwtoriaid ymarfer i gefnogi'r rhaglen ac Ysgolion Cyswllt/Ysgolion-gyflogwyr, yn enwedig yn ystod cyfnodau allweddol a nodir yn ystod y flwyddyn. |

[1] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2016), "What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers", Paris

**Ysgolion Cyswllt**

Dylai Ysgolion Cyswllt, hefyd, ddangos eu bod yn ysgolion effeithiol a gydnabyddir o fewn eu rhanbarth am eu darpariaeth ansawdd uchel (LlC, 2018). Wrth bennu darpariaeth ansawdd uchel, bydd Partneriaeth y Brifysgol Agored yn rhoi sylw dyledus i adroddiadau Estyn, y modd y caiff ysgolion eu categoreiddio a gwybodaeth y Consortia Rhanbarthol (e.e. trwy ymgynghori â chynghorwr her penodedig yr ysgol).

Bydd Ysgolion Cyswllt yn gweithio'n agos gyda'u Hysgol Bartner Arweiniol o fewn eu clwstwr i gefnogi datblygiad darpar athrawon sy'n dilyn y rhaglen ran-amser. Efallai y bydd y Consortia Rhanbarthol yn gofyn i Ysgolion Cyswllt dderbyn myfyrwyr rhan-amser (y mae'n rhaid iddynt gwblhau 120 diwrnod o brofiad ysgol dros ddwy flynedd y rhaglen, gan gael profiad mewn dwy ysgol yn ystod y cyfnod hwn). Nid yw Ysgolion Cyswllt yn aelodau o Bwyllgor y Bartneriaeth, ond efallai y byddant yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd ac is-grwpiau Pwyllgor y Bartneriaeth fel y bo'n briodol.

Profiad Ysgol (rhan-amser):

Modiwl 1: 25 diwrnod
Modiwl 2: 35 diwrnod
Modiwl 3: 60 diwrnod (rhaid cymryd 30 diwrnod fel un bloc di-dor)

| |
|---|
| MAEN PRAWF 1<br>Mae gan eich ysgol y capasiti a'r gallu i ymgysylltu â Phwyllgor y Bartneriaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu cysylltiedig, yn cynnwys cefnogi darpar athrawon mewn cyd-destun ansawdd uchel. |
| MAEN PRAWF 2<br>Mae eich ysgol yn deall agenda Diwygio Addysg Cymru, mae wedi dechrau darparu ar gyfer Cwricwlwm Cymru 2022 ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu continwwm iaith ar gyfer Cymru, gan weithio tuag at 'Cymraeg 2050'. |
| MAEN PRAWF 3<br>Mae eich ysgol wedi cael llwyddiant blaenorol o ran datblygu'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, ac asesu a hyfforddi ar lefel ysgol ac ymarferydd. Ceir strategaeth glir ar gyfer pennu, dewis a chefnogi cydlynwyr ysgolion a mentoriaid, yn ogystal â chapasiti sicr i fentora a goruchwylio fel y gellir rhoi adborth adeiladol i darpar athrawon , a'u hasesu. |
| MAEN PRAWF 4<br>Mae eich ysgol yn danbaid dros rannu arbenigedd AGA drwy'r holl ysgol ac mae'n gwneud cynnydd da o ran sefydlu dull ysgol gyfan o gefnogi darpar athrawon . Bydd eich ysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a Phartneriaeth ehangach y Brifysgol |

| |
|---|
| Agored. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi anghenion neilltuol darpar athrawon sy'n astudio ar gyfer TAR trwy ddysgu o bell ac ymarfer seiliedig ar waith, ynghyd â mynd i'r afael â'r deunyddiau ac addysgu'r rhaglen. |
| MAEN PRAWF 5<br>Mae eich ysgol wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad dysgu a chanddo ddysg broffesiynol seiliedig ar ymchwil ar bob lefel, yn yr ysgol a hefyd trwy gyfrwng partneriaethau / rhwydweithiau perthnasol.<br><br>*Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2016).* [2] *"What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers"* |

[2] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2016), "What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers", Paris

**Ysgolion-gyflogwyr**

Mae ysgolion-gyflogwyr yn cefnogi darpar athrawon sy'n dilyn cwrs TAR Cyflogedig. Mae ysgolion-gyflogwyr yn cynorthwyo i ddatblygu unigolyn â chymwysterau priodol sy'n un o gyflogeion yr ysgol ac sydd wedi cofrestru ar gwrs TAR Cynradd y Brifysgol Agored neu gwrs TAR y Brifysgol Agored mewn maes pwnc lle ceir prinder athrawon mewn ysgolion Uwchradd. Bydd ffioedd TAR pob athro-fyfyriwr o'r fath yn cael eu talu trwy grant hyfforddi gan Lywodraeth Cymru. Gall ysgolion uwchradd (yn unig) gael cyfraniad o 50% tuag at gyflog y myfyriwr bob blwyddyn (55% ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg). Mae ysgolion-gyflogwyr yn gweithio'n agos gydag arweinydd AGA eu Consortia Rhanbarthol i gynllunio profiad dysgu llawn-amser cyfunol ar gyfer yr athro-fyfyriwr sy'n cynnwys gwaith cymorth dysgu, cyfnodau dysgu ymarfer TAR penodedig a chyfnodau astudio neilltuedig. Bydd y flwyddyn gyntaf yn rhoi dull addysgu gam wrth gam, wedi'i 'sgaffaldio', ar waith, gan alluogi'r athro-fyfyriwr i fod yn fwy annibynnol yn ystod yr ail flwyddyn.

| |
|---|
| MAEN PRAWF 1<br>Cynnig profiadau dysgu ac addysgu effeithiol i'r athro-fyfyriwr a fydd yn ei alluogi i gyrraedd Statws Athro Cymwysedig (gyda chymorth gwelliannau ysgol/tystiolaeth Estyn). |
| MAEN PRAWF 2<br>Wedi ymrwymo i weithio gydag Ysgolion Partner Arweiniol a'r Bartneriaeth i fodloni amodau a thelerau'r cyfnodau dysgu ymarfer penodedig. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r tiwtor ymarfer i gefnogi gwaith y mentor/cydlynydd ysgol a datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag AGA. |
| MAEN PRAWF 3<br>Wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer cwricwlwm newydd Cymru, addysgu a dysgu. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi myfyrwyr trwy gyfrwng dysgu o bell ac ymarfer seiliedig ar waith mewn lleoliad amgen, yn ogystal â chynorthwyo gyda chyfleoedd gwella a chyfoethogi er mwyn i'r athro-fyfyriwr allu dangos yr holl ddisgrifyddion sy'n berthnasol i Statws Athro Cymwysedig. |
| MAEN PRAWF 4<br>Yn gallu pennu, dewis, cefnogi a darparu mentor a chydlynydd ysgol profiadol i gynorthwyo darpar athrawon trwy eu cyfnodau dysgu ymarfer penodedig. |
| MAEN PRAWF 5<br>Wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cydweithredol er mwyn galluogi'r athro-fyfyriwr i weithio gydag eraill. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag arweinydd AGA y Consortia Rhanbarthol i drefnu ail leoliad ystyrlon (gorfodol) mewn ysgol ar gyfer y lleoliad cyflogedig yn unol â'r gofynion presennol. |

**Ymgeisio i fod yn rhan o Bartneriaeth AGA y Brifysgol Agored**

Yn y lle cyntaf, dylai ysgolion gysylltu â'r Tîm Partneriaeth ar TAR-Cymru@open.ac.uk neu Arweinydd AGA penodol eu Consortia Rhanbarthol i gofrestru eu diddordeb a thrafod anghenion y rhaglen yn fanylach.

**Ysgolion Partner Arweiniol ac Ysgolion Cyswllt**

Llenwch y ffurflen gais ar-lein ar ein tudalen Partneriaeth Ysgol yn dangos sut y mae eich ysgol yn bodloni'r meini prawf perthnasol a nodir.

**Ysgolion-gyflogwyr**

**Cefnogi cyflogai presennol:**

- Llenwch y ffurflen gais ar-lein ar ein tudalen Partneriaeth Ysgol yn dangos sut y mae eich ysgol yn bodloni'r meini prawf perthnasol a nodir.
- Rhowch lythyr ardystio i'ch cyflogai gan ddefnyddio'r templed a ddarperir ar ar wefan TAR y Brifysgol Agored (i gyflwyno ar yr un pryd â chais y myfyriwr).
- Dylai'r cyflogai lenwi ffurflen gais TAR y Brifysgol Agored sydd ar gael ar wefan TAR y Brifysgol Agored.

**Cefnogi lleoliad trwy system baru:**

Gall ysgolion sy'n dymuno cefnogi myfyriwr Cyflogedig, ond nad ydynt eisoes yn cyflogi aelod priodol o staff, wneud cais i gael eu paru â myfyrwyr addas sydd wedi gwneud cais i ddilyn cwrs TAR Cyflogedig (pan fo ffactorau fel lleoliad daearyddol a'r dewis o bwnc yn gwneud hyn yn bosibl). Byddwn hefyd yn cysylltu ag ysgolion trwy gydol y flwyddyn i hysbysebu'r system baru a'r athrawon dan hyfforddiant sydd ar gael. Cysylltwch â'r Tîm Partneriaeth ar TAR-Cymru@open.ac.uk am fanylion pellach.

**Ffurflen Gais Partneriaeth**

Dylid cyflwyno mynegiadau o ddiddordeb trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein ar ein tudalen Partneriaeth Ysgol.

## Cwestiynau Cyffredin

*Rydym yn ysgol arbennig - a allwn gefnogi myfyrwyr partneriaeth y Brifysgol Agored?*

- Mae Partneriaeth y Brifysgol Agored yn croesawu cyfranogiad ac arbenigedd ysgolion arbennig ac rydym wedi penodi Ysgolion Arbennig Partner Arweiniol i'n cefnogi wrth ddylunio a chyflwyno'r rhaglen. Gall ysgolion arbennig gefnogi myfyrwyr rhan amser yn ystod ail brofiad ysgol am nifer gyfyngedig o ddyddiau. Ni ellir lleoli myfyrwyr cyflogedig mewn ysgol arbennig ar hyn o bryd.

*Rydym yn Uned Cyfeirio Disgyblion - a allwn gefnogi myfyrwyr partneriaeth y Brifysgol Agored?*

- Ni ellir lleoli myfyrwyr Partneriaeth y Brifysgol Agored (rhan amser a chyflogedig) mewn UCD ar hyn o bryd. Rydym yn annog ein myfyrwyr i ystyried ystod eang o leoliadau addysgol i ymgymryd â chyfnodau o wella a chyfoethogi ym mlwyddyn 2 y rhaglen. Gall darpar athrawon mynychu Uned fel rhan o'u gweithgareddau cyfoethogi.

*Ydyn ni'n gallu gefnogi myfyrwyr rhan amser a chyflogedig?*

- Mae'n bosibl derbyn mwy nag un 'statws' ar unrhyw adeg benodol. Efallai y bydd eich ysgol yn ysgol bartner arweiniol sy'n cyflogi myfyrwyr ac yn cefnogi myfyrwyr rhan amser, er enghraifft.

*Rydym yn ysgol annibynnol. A allwn gefnogi darpar athrawon Partneriaeth y Brifysgol Agored?*

- Ni ellir gosod myfyrwyr Partneriaeth y Brifysgol Agored (rhan amser a chyflogedig) mewn ysgolion annibynnol ar hyn o bryd. Rydym yn annog ein myfyrwyr i ystyried ystod eang o leoliadau addysgol i ymgymryd â chyfnodau o wella a chyfoethogi ym mlwyddyn 2 y rhaglen. Gall darpar athrawon mynychu lleoliad annibynnol fel rhan o'u gweithgareddau cyfoethogi.

ATODIAD A

<u>Rolau a Chyfrifoldebau Ysgolion Partner Arweiniol</u>

**1. Bod yn aelodau o'r Pwyllgor Partneriaeth TAR**

- Mynd ati mewn modd cydweithredol i arwain datblygiad a phenderfyniadau strategol y rhaglen
- Darparu cyfleoedd hyfforddi i gydweithwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch ac ardaloedd Consortia Rhanbarthol y bartneriaeth

**2.1 Darparu amgylcheddau dysgu a phrofiadau o'r radd flaenaf i darpar athrawon**

- Cefnogi myfyrwyr o ysgolion partner arweiniol neu ysgolion cyswllt eraill i fynd i'r afael ag ail brofiad addysgu mewn amgylchedd safon uchel Ysgol Bartner Arweiniol
- Rhoi cyfle ac amser i staff ysgol ag arbenigedd perthnasol yn yr Ysgol Bartner Arweiniol fynd i'r afael â rôl tiwtor ymarfer

**2.2 Pan fo'r Ysgol Bartner Arweiniol hefyd yn cefnogi arbenigedd addysgu AGA myfyriwr/myfyrwyr rhan-amser a/neu gyflogedig yn yr ysgol:**

- Pennu adrannau/dosbarthiadau addas â dysg o'r radd flaenaf, yn cynnwys cynllunio amserlen briodol ar gyfer pob myfyriwr sy'n bodloni'r meini prawf angenrheidiol
- Bod â strategaeth glir ar gyfer pennu, cefnogi a datblygu mentoriaid a chydlynwyr ysgolion effeithiol a chanddynt brofiad addas (yn cynnwys rhai a all gynorthwyo gyda llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a datblygu'r Gymraeg)
- Darparu amser neilltuedig i fentoriaid ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion perthnasol y rhaglen, yn cynnwys cyfarfodydd mentoriaid wedi'u hamserlennu, arsylwadau gwersi ffurfiol ac anffurfiol, cwblhau adroddiadau ar gynnydd myfyrwyr a chymryd rhan mewn sesiynau datblygu mentoriaid
- Darparu cymorth ac ymyrraeth ychwanegol i fyfyrwyr, yn unol â'r Fframwaith Cynorthwyo Myfyrwyr

**3. Ar y cyd â thîm Academaidd y Brifysgol Agored yng Nghymru, cynorthwyo i gydberthyn theori ac ymarfer trwy'r holl agweddau ar y rhaglen:**

- Trwy fynd ati i ddatblygu gweithdai ar gyfer deunyddiau modiwlau ar-lein
- Trwy gynorthwyo myfyrwyr i gwblhau gweithgareddau profiad ysgol
- Trwy gynorthwyo myfyrwyr i fynd i'r afael ag astudiaeth ar raddfa fach ym mlwyddyn 2

**4. Cyfrannu at asesu myfyrwyr o safbwynt y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n berthnasol i darpar athrawon :**

- Trwy ddarparu adborth rheolaidd yn ymwneud ag arsylwadau ffurfiannol a chrynodol ar wersi
- Trwy asesu cynnydd y myfyrwyr yn rheolaidd

**5. Cyfrannu'n sylweddol at y broses recriwtio a dethol:**

- Darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r Consortia Rhanbarthol i bennu meysydd addysgu y mae eu hangen at ddibenion recriwtio
- Darparu lle addas yn yr ysgol ar gyfer cynnal cyfweliadau;
- Cymryd rhan yn y broses o gyfweld ymgeiswyr

**ATODIAD B**

**Rolau a Chyfrifoldebau Ysgolion Cyswllt**

1. **Cefnogi Profiad Addysgu AGA Myfyrwyr Rhan-amser:**
   - Pennu adrannau/dosbarthiadau addas â dysg o'r radd flaenaf, yn cynnwys cynllunio amserlen briodol ar gyfer pob myfyriwr sy'n bodloni'r meini prawf angenrheidiol
   - Bod â strategaeth glir ar gyfer pennu, cefnogi a datblygu mentoriaid a chydlynwyr ysgolion effeithiol a chanddynt brofiad addas (yn cynnwys rhai a all gynorthwyo gyda llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a datblygu'r Gymraeg)
   - Darparu amser neilltuedig i fentoriaid ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion perthnasol y rhaglen, yn cynnwys cyfarfodydd mentoriaid wedi'u hamserlennu, arsylwadau gwersi ffurfiol ac anffurfiol, cwblhau adroddiadau ar gynnydd myfyrwyr a chymryd rhan mewn sesiynau datblygu mentoriaid
   - Darparu cymorth ac ymyrraeth ychwanegol i fyfyrwyr, yn unol â'r Fframwaith Cynorthwyo Myfyrwyr

2. **Ar y cyd â thîm Academaidd y Brifysgol Agored yng Nghymru, cynorthwyo i gydberthyn theori ac ymarfer trwy'r holl agweddau ar y rhaglen:**
   - Cynorthwyo myfyrwyr i gwblhau gweithgareddau profiad ysgol
   - Cynorthwyo myfyrwyr i fynd i'r afael ag astudiaeth ar raddfa fach ym mlwyddyn 2

3. **Cyfrannu at asesu myfyrwyr o safbwynt y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n berthnasol i darpar athrawon :**
   - Trwy ddarparu adborth rheolaidd yn ymwneud ag arsylwadau ffurfiannol a chrynodol ar wersi
   - Trwy asesu cynnydd y myfyrwyr yn rheolaidd

**ATODIAD C**

**Rolau a Chyfrifoldebau Ysgolion-gyflogwyr**

1. **Cefnogi Profiad Addysgu AGA Myfyrwyr Cyflogedig:**
   - Pennu adrannau/dosbarthiadau addas â dysg o'r radd flaenaf, yn cynnwys cynllunio amserlen briodol ar gyfer pob myfyriwr sy'n bodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer cyflwyniad gam wrth gam, wedi'i 'sgaffaldio', i addysgu.
   - Bod â strategaeth glir ar gyfer pennu, cefnogi a datblygu mentoriaid a chydlynwyr ysgolion effeithiol a chanddynt brofiad addas (yn cynnwys rhai a all gynorthwyo gyda llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a datblygu'r Gymraeg).
   - Darparu amser neilltuedig i fentoriaid ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion perthnasol y rhaglen, yn cynnwys cyfarfodydd mentoriaid wedi'u hamserlennu, arsylwadau gwersi ffurfiol ac anffurfiol, cwblhau adroddiadau ar gynnydd myfyrwyr a chymryd rhan mewn sesiynau datblygu mentoriaid.
   - Gweithio'n agos gyda'r Tiwtor Ymarfer o Ysgol Bartner Arweiniol y clwstwr er mwyn cynorthwyo i ddatblygu darpar athrawon a mentoriaid fel ei gilydd.
   - Darparu cymorth ac ymyrraeth ychwanegol i fyfyrwyr, yn unol â'r Fframwaith Cynorthwyo Myfyrwyr
   - Cytuno i gynorthwyo/mynd ati i gynorthwyo darpar athrawon i fynd i'r afael ag ail brofiad ysgol gorfodol a chyfleoedd gwella a chyfoethogi eraill.

2. **Ar y cyd â thîm Academaidd y Brifysgol Agored yng Nghymru, cynorthwyo i gydberthyn theori ac ymarfer trwy'r holl agweddau ar y rhaglen:**
   - Cynorthwyo myfyrwyr i gwblhau gweithgareddau profiad ysgol
   - Cynorthwyo myfyrwyr i fynd i'r afael ag astudiaeth ar raddfa fach ym mlwyddyn 2

3. **Cyfrannu at asesu myfyrwyr o safbwynt y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n berthnasol i darpar athrawon :**
   - Trwy ddarparu adborth rheolaidd yn ymwneud ag arsylwadau ffurfiannol a chrynodol ar wersi
   - Trwy asesu cynnydd y myfyrwyr yn rheolaidd